

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Eth Mae'n Golygu i'ch Plentyn



Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r prosesau a'r systemau sydd yn rhan o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae yna ddeddfwriaeth newydd yn ei lle ers Medi 2021, a fydd yn cael ei gweithredu'n llawn o fis Medi 2024. Mae yna newidiadau a fydd o bosib yn effeithio arnoch chi a'ch plentyn.

Mae'r egwyddorion sydd yn rhan o'r system ADY yn ceisio creu system addysg hollol gynhwysol lle y mae'r holl ddysgwyr yn cael cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg a fydd yn diwallu eu hanghenion ac yn eu caniatáu i gymryd rhan ac elwa o ddysgu.



AAA i ADY

Bydd y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio yn hytrach nag 'Anghenion Addysgol Arbennig'. Bydd yr holl awdurdodau lleol yn meddu ar Swyddogion Statudol a Swyddog ADY Blynyddoedd Cynnar er mwyn cefnogi plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd pob un ysgol a choleg hefyd yn meddu ar Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae Plant neu Bobl Ifanc yn cael eu hystyried fel rhai sy'n meddu ar anghenion dysgu ychwanegol os:

- Maent yn meddu ar drafferthion dysgu neu anabledd, sydd yn golygu eu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddarpariaeth addysgol neu hyfforddi sy'n ychwanegol, neu'n wahanol, i'r hyn sydd yn cael ei roi i eraill o'r un oedran.
- Maent yn cael tipyn mwy o drafferth yn dysgu na'r rhan fwyaf o blant/pobl ifanc sydd o'r un oedran.



0–25 mlwydd oed

Bydd yna un system o gymorth ar gyfer plant neu bobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol rhwng 0 a 25 mlwydd oed.

Cyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae dull sy'n canoli ar y person yn cael ei ddefnyddio er mwyn casglu barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc a barn y rhieni neu ofalwyr y plentyn. Mae hyn yn ganolog ar gyfer cynllunio a darparu cymorth a fydd yn llywio datblygiad eu Cynlluniau Datblygu Unigol.

Cydlafurio

Bydd yr holl wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod yna gymorth wedi'i gydlynw a fydd yn caniatáu plant a phobl ifanc i sicrhau disgwyliadau, profiadau a'r canlyniadau mwyaf positif.

Cynllun datblygu unigol (CDU)

Bydd plant neu bobl ifanc sydyn meddu ar ADY sydd yn golygu eu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol, yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) er mwyn disgrifio eu hanghenion a'r cymorth sydd angen arnynt er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Mae'r CDU yn medru cynnwys y cyngor gan ystod o weithwyr proffesiynol sydd yn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd CDU yn cael ei adolygu o leiaf yn flynyddol neu pan fydd rhywbeth yn newid yn sylweddol o ran y plentyn neu'r person ifanc.

Datrys anghydfod a'r hawl i apelio

Dylid delio ag unrhyw anghydfod mor gyflym ag sydd yn bosib gyda'r awdurdod lleol a'r bobl allweddol sydd yn rhan o hyn. Bydd grwpiau cymorth annibynnol yn gwrandao ac yn helpu os nad oes anghydfod wedi ei ddatrys. Mae plant, pobl ifanc, rheini a gofalwyr yn meddu ar yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol am anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Eth Mae'n Golygu i'ch Plentyn



CYSYLLTWCH GYDA NI:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,
Llys Einion,
Stryd yr Eglwys,
Abertyleri.
Blaenau Gwent
NP13 1DB

Ffôn: 01495 355443
E-bost: ALNEnquiries@blaenaugwent.gov.uk

Diolch yn fawr iawn i CBS Sir Fynwy am rannu'r
daflen hon